



# Arolwg Omnibws yr Oedolion, 2019

Mynychu a Chymryd Rhan



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



Clawr: Y cyfansoddwr Teifi Emerald yn gweithio gyda Hijinx fel rhan o brosiect Codi gan Dŷ Cerdd (llun: Matthew Thistlewood)

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	5
Cefndir .....	5
Methodoleg .....	5
Nodiadau am gyflwyno data.....	6
Crynodeb.....	7
Adroddiad cryno.....	9
Mynychu digwyddiadau celfyddydol.....	9
Cymryd rhan yn y celfyddydau .....	9
Mynychu a chymryd rhan yn ôl dosbarth cymdeithasol.....	10
Mynychu yn ôl dosbarth cymdeithasol.....	10
Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl dosbarth cymdeithasol.....	11
Mynychu a chymryd rhan yn ôl oed .....	12
Mynychu'r celfyddydau yn ôl oed .....	12
Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl oed.....	13
Mynychu a chymryd rhan yn ôl rhywedd .....	14
Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhywedd.....	14

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhywedd .....	14
Mynychu a chymryd rhan yn ôl rhanbarthau'r Cyngor .....	15
Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhanbarth.....	15
Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhanbarth .....	15
Mynychu'r celfyddydau yn ôl y Gymraeg .....	16
Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl y Gymraeg.....	18
Mynychu yn ôl celfyddyd.....	19
Cymryd rhan yn ôl celfyddyd: trosolwg .....	21
Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol .....	23
Atodiad 2 – Cwestiynau Arolwg 2019 .....	24

## Cyflwyniad

### Cefndir

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolwg ymchwil mynychu a chymryd rhan bob blwyddyn er 1993. Sail yr arolwg yw casglu data am fynychu digwyddiadau celfyddydol a chymryd rhan mewn gweithgareddau artistig. Cesglir y wybodaeth drwy gyfres o gwestiynau a ofynnir yn Arolwg Omnibws Cymru gan Ymchwil Beaufort. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd i gasglu'r wybodaeth wedi'i atodi i'r adroddiad.

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r arolwg diweddaraf a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2019. Mae'n esbonio amrywiadau demograffig a rhanbarthol o ran mynychu a chymryd rhan. Mae hefyd yn ystyried tueddiadau yn y data dros amser.

### Methodoleg

Gwnaed gwaith maes yr arolwg yn ystod 13-26 Tachwedd 2019. Cynhaliwyd 1,021 cyfweiliad. Cynhaliwyd y cyfweiliadau yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweld Personol â Chymorth Cyfrifiadur) mewn trawstoriad o gartrefi a samplwyd gan ardal allbwn uwch lefel is<sup>1</sup>. Cynlluniwyd y sampl i fod yn gynrychioliadol o'r oedolion sy'n byw yng Nghymru sy'n 16 oed a hŷn. Ym mhob pwynt samplu, defnyddiwyd rheolaethau cwota ar oed, rhywedd a dosbarth cymdeithasol i ddewis ymatebwyr. Pennwyd y cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig trigolion Cymru ac ni chyfwelwyd â rhagor nag un person ar bob aelwyd. Pwysolwyd y data dilynol hefyd i fireinio unrhyw anghydbwysedd yn y sampl, er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gynrychioliadol o boblogaeth Cymru.

---

<sup>1</sup> Dyma hierarchaeth ddaeryddol gyda'r nod o wella'r broses o adrodd am ystadegau ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr. Fe'u hadeiladwyd o grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch cyffiniol ac fe'u cynhyrchwyd yn awtomatig i fod mor gyson o ran maint y boblogaeth a chyfansoddiad economaidd-gymdeithasol â phosibl.

## Nodiadau am gyflwyno data

Cyflwynir y data mewn cyfres o siartiau llinell a bar, sy'n dangos canran y bobl sydd wedi mynychu'r gweithgareddau a grybwyllwyd yn yr arolwg neu wedi cymryd rhan ynddynt. Mae'r canlyniadau hefyd yn cael eu rhannu yn ôl grwpiau a rhanbarthau demograffig allweddol, unwaith eto'n dangos canran pob grŵp neu ranbarth demograffig sydd wedi mynychu neu gymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Mae'n werth nodi'r diffiniadau rhanbarthol sydd yn yr adroddiad:

Y Gogledd	Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wreccsam
Y De-orllewin	Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe
Canolbarth y De	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg
Y De-ddwyrain	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen

## Crynodeb

Mynychodd dros 8 o bob 10 (86.8%) oedolyn yng Nghymru ddigwyddiad o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019, sef y lefel uchaf o fynychu'r celfyddydau er 2009.

Cymerodd bron hanner, 49.3%, o'r holl oedolion ran mewn gweithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019, y lefel uchaf hefyd o gymryd rhan er 2009.

Roedd gan fenywod lefelau uwch o ymwneud â'r celfyddydau yn 2019 o ran fynychu'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mynychodd 88.9% o fenywod ddigwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn o'i gymharu ag 84.5% o ddynion. Mae lefelau fynychu ymhlith menywod ar gynnydd o 6.6 pwynt canran er 2017 o gymharu â chynnydd o 5.6 pwynt canran i ddynion.

Cymerodd ychydig dros hanner, 52.3%, o fenywod ran yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach a oedd yn uwch na dynion, gyda 46.1% yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn.

O ran fynychu a chymryd rhan roedd lefelau uwch o weithgarwch ymhlith y dosbarth cymdeithasol uwch yn 2019. Mynychodd 93.2% o'r rhai yn y grŵp ABC1 ddigwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn a chymerodd 54.7% ran mewn gweithgarwch celfyddydol. Mae hyn yn cymharu â 79.9% o ran fynychu a 43.5% o ran cymryd rhan ymhlith grwpiau C2DE.

Mynychodd dros 9 o bob 10 (94.2%) o bobl ifanc 16-24 oed ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019 ond mynychodd tri chwarter o'r rhai dros 65 oed ar yr un amllder yn ystod y flwyddyn.

Roedd lefelau cymryd rhan yn y celfyddydau yn 2019 yn llai amrywiol ar draws y gwahanol grwpiau oed, gyda bron 50% yn cymryd rhan yn y celfyddydau ar draws pob ystod oed.

Mynychodd bron 9 o bob 10 (89.1%) oedolyn yng Nghanolbarth y De ddigwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019, sef yr ardal â'r lefel uchaf o fynychu. Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â 2018. Roedd y lefelau isaf yn 2019 yn y De-orllewin lle mynychodd 83.8% o oedolion.

Roedd lefelau cymryd rhan uwch na'r cyfartaledd yn y De-ddwyrain, 57.2%, a Chanolbarth y De, 54.5% yn 2019, gyda'r De-ddwyrain â'r lefelau uchaf o gymryd rhan yn ystod y flwyddyn.

Mynychodd ychydig dros 9 o bob 10, 92.3%, o'r rhai sy'n siarad Cymraeg ddigwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019, mae hyn yn cymharu ag 85% o'r rhai nad oeddynt yn siarad Cymraeg. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi ehangu o 2.9 pwynt canran yn 2018 (86.9% o siaradwyr Cymraeg yn mynychu o gymharu ag 84% o'r di-Gymraeg), i 7.3 pwynt canran yn 2019.

Nid oes gwahaniaeth yn lefelau cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl y Gymraeg, gyda 49% o siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019. Mae hyn yn parhau â'r duedd yn 2018 pan gymerodd 45% o'r ddau grŵp ran yn y celfyddydau.

Fel gyda'r ddwy flynedd flaenorol, y gelfyddyd a fynychwyd amlaf yn 2019 oedd sinema, gyda 60% yn ei mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Dilynwyd hyn gan gerddoriaeth fyw arall gyda hanner, 49.9%, yr oedolion yn ei mynychu.

Mae lefelau cymryd rhan yn 2019 yn parhau i fod ar eu huchaf ymhlith y celfyddydau gweledol a chreffft, gyda 28.2% yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn. Cerddoriaeth oedd yr ail gelfyddyd fwyaf poblogaidd gyda bron un rhan o bump, 18.4%, yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach.




## Adroddiad cryno

### Mynychu digwyddiadau celfyddydol

Mynychodd 86.8% o oedolion ddigwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019, y lefel uchaf o fynychu'r celfyddydau dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn gynydd o 2.2 pwynt canran o'i flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau â'r duedd tuag i fyny mewn lefelau mynychu er 2016.

Lefelau mynychu'r celfyddydau yng Nghymru 2009-2019 (canran sy'n mynychu unrhyw un o'r 14 celfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (o leiaf 1,000 yn y don)


Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

O dynnu'r sinema o'r dadansoddiad, mae ychydig dros 8 o bob 10 (82.4%) o oedolion a fynychodd ddigwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019. Mae hyn ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol pan fynychodd 79.6% o oedolion.

### Cymryd rhan yn y celfyddydau

Cymerodd bron hanner yr holl oedolion (49.3%) ran yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019. Mae hyn yn gynydd o 3.7 pwynt canran er 2018 a'r lefelau uchaf o gymryd rhan dros y deng mlynedd diwethaf.

Lefelau cymryd rhan yn y celfyddydau 2009-2019 (canran sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (o leiaf 1,000 yn y don)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2009-2019

# Mynychu a chymryd rhan yn ôl dosbarth cymdeithasol

## Mynychu yn ôl dosbarth cymdeithasol

Mynychu'r celfyddydau yn ôl dosbarth cymdeithasol (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)


Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Mae'n ymddangos bod o hyd berthynas rhwng grŵp economaidd-gymdeithasol a lefelau mynychu i'r celfyddydau gyda 93.2% o oedolion o'r dosbarth cymdeithasol uwch, y grŵp ABC1, yn mynychu digwyddiad celfyddydol o leiaf unwaith y flwyddyn ac 8 o bob 10 (79.9%) person yn mynychu o'r grŵp C2DE. Bu cynnydd o 6.8 pwynt canran yn nifer y mynychu ymhlith y grŵp ABC1 oddi wrth 2018 tra bod y grŵp C2DE wedi aros ar yr un lefel yn y ddwy flynedd.

## Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl dosbarth cymdeithasol

Fel gyda mynychu'r celfyddydau, roedd cymryd rhan yn y celfyddydau yn 2019 yn uwch ymhlith grŵp economaidd-gymdeithasol ABC1, gydag ychydig dros hanner yr oedolion (54.7%) yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn yn cymharu â chyfradd cymryd rhan is na'r cyfartaledd o 43.5% i'r rheini yn y grŵp C2DE, mae hyn yn wahaniaeth o 11.2 pwynt canran, bwlch tebyg iawn i'r flwyddyn flaenorol.

Cymryd rhan y celfyddydau yn ôl dosbarth cymdeithasol (canran sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu a chymryd rhan yn ôl oed

### Mynychu'r celfyddydau yn ôl oed

Fel gyda'r blynyddoedd blaenorol, roedd lefelau uwch o fynychu i ddigwyddiadau celfyddydol ymhlith y grwpiau iau, gyda 94.2% o bobl ifanc 16-24 oed yn mynychu o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu â 75.9% o bobl dros 65 oed. Ond er gwaethaf y lefelau mynychu is, bu cynnydd o 7.5 pwynt canran ymhlith y grŵp dros 65 oed er 2017.

Tabl 1 mynychu'r celfyddydau yn ôl oed

	2019	2018	2017
16-24	94.2%	92.7%	96.5%
25-34	92.6%	90.1%	86.8%
35-44	93.2%	89.6%	83.0%
45-64	86.7%	87.8%	80.9%
dros 65	75.9%	70.5%	68.4%
Cyfanswm	86.8%	84.6%	80.7%

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl oed

Yn 2019 roedd cymryd rhan yn y celfyddydau yn weddol debyg ar draws pob grŵp oed. Er bod y lefelau mynychu uchaf ymhlith y grwpiau iau gyda hanner y grwpiau 16-24 a 25-34 oed yn cymryd rhan yn y celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn. Roedd y lefelau isaf ymhlith y grwpiau hynaf dros 65 oed (47.6%), roedd hyn 4.3 pwynt canran yn is na'r bobl ifanc 16-24 oed. Er nad yw'r patrwm cymryd rhan wedi newid yn fawr ymhlith y grwpiau iau o'r flwyddyn flaenorol, mae'r grwpiau 35-44 a 45-64 oed ill dau wedi gweld cynnydd mewn lefelau cymryd rhan. Mae'r grŵp 35-44 oed yn cynyddu 7.9 pwynt canran er 2018. Mae'r grŵp 45-64 oed wedi cynyddu gan 8.2 pwynt canran.

Tabl 2: cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl oed

	2019	2018	2017
16-24	51.9	57.2	61.3
25-34	50.6	52.7	42.8
35-44	49.9	42.0	49.7
45-64	48.7	40.5	41.1
dros 65	47.6	43.7	44.6
Cyfanswm	49.3	45.6	45.8


Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu a chymryd rhan yn ôl rhywedd

### Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhywedd

Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)  
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Daeth rhagor o fenywod na dynion i'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn 2019, 88.9% o gymharu ag 84.5% o ddynion. Mae mynychu ymhlith dynion ar gynnydd o 5.6 pwynt canran er 2017, tra bod mynychu ymhlith menywod wedi cynyddu 6.6 pwynt canran.

### Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhywedd

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhywedd (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)  
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Fel gyda mynychu roedd lefelau uwch o gymryd rhan ymhlith menywod, 52.3% o gymharu â dynion, 46.1%. Mae'n batrwm tebyg i'r blynyddoedd blaenorol, gyda'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn 2019 yn 6.2 pwynt canran. Mae wedi lleihau o'r flwyddyn flaenorol pan oedd bwlch o 8.5 pwynt canran rhwng y ddau grŵp.

# Mynychu a chymryd rhan yn ôl rhanbarthau'r Cyngor

## Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhanbarth

Mynychu'r celfyddydau yn ôl rhanbarth y Cyngor (canran sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)  
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)  
Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

Yn 2019, Canolbarth y De oedd â'r lefelau mynychu uchaf gyda bron 9 o bob 10 oedolyn (89.1%) yn mynychu digwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Roedd y lefelau isaf yn y De-orllewin lle mynychodd 83.8% ddigwyddiadau celfyddydol. Canolbarth y De hefyd oedd â'r lefelau mynychu uchaf yn 2018, 85.8%, tra bod y lefelau isaf yn y Gogledd, 83.9%.

## Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhanbarth

Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl rhanbarth y Cyngor (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Roedd lefelau cymryd rhan uwch na'r cyfartaledd yn y De-ddwyrain, 57.2%, a Chanolbarth y De, 54.5% yn 2019. Y De-ddwyrain hefyd oedd â'r lefel uchaf o weithgarwch yn ystod y flwyddyn. Mae'r patrwm wedi newid o'r flwyddyn flaenorol lle'r oedd Canolbarth y De gyda'r lefelau uchaf o gymryd rhan yn y celfyddydau, 51.1%, ac yna'r De-ddwyrain, 48.3%.

## Mynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl y Gymraeg

### Mynychu'r celfyddydau yn ôl y Gymraeg

Bu cynnydd yn lefelau mynychu i ddigwyddiadau celfyddydol ymhlith y rhai sy'n siarad Cymraeg, gan godi o 86.9% yn 2018 i 92.3% yn 2019. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 1 pwynt canran ymhlith y di-Gymraeg, gydag 85% yn mynychu yn 2019.

Mynychu'r celfyddydau yn ôl y Gymraeg (canran sy'n mynychu'r celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)


Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019



## Dadansoddiad pellach o'r Gymraeg a mynychu

Wrth archwilio'r data Cymraeg ychydig yn fanylach mae'n dangos y bu cynnydd o 7.9 pwynt canran ymhlith siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl rhwng 2018 a 2019, i 97.2% am fynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 3.3 pwynt canran ymhlith y siaradwyr Cymraeg rhugl yn yr un cyfnod.

Dadansoddiad pellach o fynychu'r celfyddydau yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl y Gymraeg

Nid oes gwahaniaeth yn lefelau cymryd rhan yn y celfyddydau a'r ffaith bod rhywun yn siarad Cymraeg, gyda 49% o'r ddau grŵp yn cymryd rhan mewn gweithgarwch o leiaf unwaith y flwyddyn. Wrth edrych ar y siaradwyr Cymraeg yn fanylach gellir gweld bod cyfran uwch yn cymryd rhan yn y celfyddydau ymhlith y siaradwyr nad oeddynt yn rhugl, 57.8% o gymharu â'r siaradwyr Cymraeg rhugl, 40.7%. Bu cynnydd o 11.3 pwynt canran mewn lefelau gweithgarwch ymhlith y siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl.

Dadansoddiad pellach o gymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl gallu yn y Gymraeg (canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)


Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

## Mynychu yn ôl celfyddyd

Y gelfyddyd a fynychwyd amlaf yn 2019 oedd sinema gyda 6 o bob 10 oedolyn yn mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn yn gynydd o 8.6 pwynt canran er 2017. Mynychodd hanner, 49.9%, o oedolion gerddoriaeth fyw yn 2019, a mynychodd 46.2% garnifal a chelfyddydau'r stryd unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Dyma'r tair celfyddyd a fynychwyd amlaf yn ystod y flwyddyn.

Bale ac opera oedd y celfyddydau â'r lefelau mynychu isaf o hyd gyda 5.5% a 6.1% o oedolion yn eu mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach, lefelau tebyg iawn i'r ddwy flynedd flaenorol.


Mynychu'r celfyddydau yn ôl celfyddyd (canran sy'n mynychu pob celfyddyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

**Map o Gymru sy'n dangos mynychu celfyddydol gan oedolion yn 2019  
(canran sy'n mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)**




Tîm Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru, Rhagfyr 2020

© hawlfraint y Goron a'i chronfa ddata 2020. Trwydded Arolwg yr Ordnans

## Cymryd rhan yn ôl celfyddyd: trosolwg

Y celfyddydau gweledol a chrefft oedd y gweithgarwch mwyaf poblogaidd i oedolion gymryd rhan ynddo yn 2019, gyda bron 3 o bob 10 (28.7%) yn gwneud hynny unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Dyma'r gweithgarwch mwyaf poblogaidd o hyd i gymryd rhan ynddo dros y tair blynedd. Drama o hyd oedd y maes i gymryd rhan ynddo leiaf aml gyda 4% yn cymryd rhan bob blwyddyn er 2017. Cerddoriaeth, y celfyddydau digidol ac ysgrifennu creadigol yw'r tair celfyddyd sydd wedi profi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.


Cymryd rhan yn y celfyddydau yn ôl celfyddyd (canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)



Sail: pob oedolyn (2017:1,021, 2018 a 2019:1,002)

Ffynhonnell Arolwg Omnibws Cymru 2017-2019

**Cymryd rhan yn y celfyddydau gan oedolion yng Nghymru yn 2019  
(canran sy'n cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu'n amlach)**



Tim Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru, Rhagfyr 2020

© hawlfraint y Goron a'i chronfa ddata 2020. Trwydded Arolwg yr Ordnans

## Atodiad 1 – Diffiniadau o safleoedd economaidd-gymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safle cymdeithasol, seiliedig ar swydd prif enillydd cyflog y tŷ. Rhanna pawb arall yn y tŷ yr un safle â'r prif enillydd. I hwyluso dadansoddi, grwpir y tri grŵp cyntaf yn ABC1au ac C2DEau sef dosbarth canol a dosbarth gweithiol:

- A “Dosbarth canol uwch” - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch e.e. prif weithredwr, cyfarwyddwr cwmni, gwas sifil uwch, meddyg, barnwr, bargyfreithiwr, cyfrifydd gweithredol
- B “Dosbarth canol” - swydd rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolig e.e. athro ysgol uwchradd, llyfrgellydd, rhaglennwr cyfrifiaduron, swyddog prawf, gweithydd cymdeithasol
- C1 “Dosbarth canol is” - swydd arolygu, clerigol, isreoli e.e. gweithiwr swyddfa/clerigol, arolygydd ffatri, clerc banc, gwerthwr, myfyriwr

**ABC1au** –  
proffesiynol,  
cymwys a swyddi  
lle na wneir  
gwaith â llaw

- C2 “Dosbarth gweithiol medrus” - gweithiwr medrus â llaw e.e. Trydanwr, saer coed, ymladdwr tân, fforman
- D “Dosbarth gweithiol” - gweithiwr â llaw sy'n lled-fedrus a di-grefft e.e. gweithiwr mewn siop, gweithiwr ffatri, casglwr sbwriel, negesydd, staff bar
- E Y rhai sy'n llwyr ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y rhai di-waith hir dymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr dros dro

**C2DEau** –  
medrus, lledfedrus a  
gweithwyr llaw di-  
grefft a phobl na  
weithiant

## Atodiad 2 – Cwestiynau Arolwg 2019

Cwestiwn 1 Darllenaf yn uchel restr o weithgareddau - pa mor aml ydych chi'n cymryd rhan ynddyn nhw neu fynd iddyn nhw?

Defnyddiwch y cerdyn i'ch helpu gyda'ch ateb.

DARLLENWCH YN UCHEL

..... a) Mynd i'r sinema i weld ffilm?

Unwaith yr wythnos neu'n amlach

2/3 gwaith y mis

Unwaith y mis

Unwaith bob 2/3 mis

2/3 gwaith y flwyddyn

Unwaith y flwyddyn

Llai aml

Byth

Ni wn

Ailadroddwch am:

Sioe Gerdd

Opera

Bale

Dawns gyfoes

Dramâu

Cerddoriaeth glasurol

Jas

Cerddoriaeth werin, draddodiadol a'r byd

Cerddoriaeth fyw arall

Arddangosfeydd Celf/chreft

Digwyddiadau llenyddol

Carnifal a chelfyddydau'r stryd

Gwyliau celfyddydol



Dangoswch gerdyn A eto

Cwestiwn 2 Yn eich amser hamdden, pa mor aml ydych yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarllenaf yn uchel?

Mae 'cymryd rhan' yn meddwl yn y tŷ, mewn dosbarthiadau, ymarferion, sioeau neu weithdai, ond nid yn rhan o'ch swydd neu'ch addysg amser llawn.

Darllenwch yn uchel

..... a) Cerdd o unrhyw fath gan gynnwys canu offeryn, canu, rhoi help llaw mewn côr, cymdeithas operatig, band pres, cerddorfa, grŵp gwerin/roc/jas.

Unwaith yr wythnos neu'n amlach

2/3 gwaith y mis

Unwaith y mis

Unwaith bob 2/3 mis

2/3 gwaith y flwyddyn

Unwaith y flwyddyn

Llai aml

Byth

Ni wn

Ailadroddwch am:

Drama neu theatr o unrhyw fath.

Dawns o unrhyw fath.

*Gwneud ffilm a fideo, neu ffotograffiaeth ar wahân i luniau o'r teulu, gwyliau neu bartïon.*

Celfyddydau gweledol a chrefftau, er enghraifft peintio, braslunio, graffeg gyfrifiadurol, crochenwaith, turnio, gwneud gemwaith, gwehyddu, tecstilau, gwau neu wnio.

Ysgrifennu creadigol, er enghraifft barddoniaeth neu straeon.

y celfyddydau digidol: creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e.

lanlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys artistig (e.e. ar YouTube, Fflicr, ac ati.)